


# CYNGOR TREF PORTHMADOG



## **COFNODION PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU EBRILL 27 2021**

**PRESENNOL** :- Cynghorwyr :- Gwilym Jones (Cadeirydd). Selwyn Griffiths, Ian Jones, Jason Humphreys, Aled Griffith

**1. Ymddiheuriadau** :- Nia Jeffreys, Dr Simon Brooks

### **2. Llwybrau**

Eglurodd y Clerc fel yr oedd wedi llythyru Cyngor Gwynedd ynglyn â Llwybr Peniel a Phenmount a'i bod yn dal i aros am ymateb ganddynt. Cynigiodd y Cyng Aled Griffith fod y Clerc yn holi Cyngor Gwynedd pam iddynt chwistrellu chwynladdwr mor ormodol ar lwybr y Cyt a llwybrau eraill Porthmadog gan iddo ladd llawer iawn o dyfiant naturiol.

**Penderfynwyd** :- gweithredu yn ôl y cynnig, Cyng Ian Jones yn eilio.

### **3. Cae Bodawen**

### **4. Bryn Coffa**

### **5. Cae Pawb**

Eglurodd y Cadeirydd fod y broses o gofrestru tiroedd Cyngor Tref Porthmadog yn mynd yn broses hirwyntog a chymhleth iawn. Mae'r mater yn parhau yn nwylo Cyfreithiwr Breese-Gwyndaf a Gethin Vaughan Jones, Syrfewr Stadau Cynorthwyol Cyngor Gwynedd ac mae'r Clerc yn parhau i aros am ddatrysiad i'r mater.

### **6. Llochesi Bws**

Cafwyd cynnig gan y Cyng Selwyn Griffiths i'r Clerc holi am rhywun i lanhau'r lloches bws ger cae chwarae Morfa Bychan.

**Penderfynwyd** :- gweithredu yn ôl y cynnig, Cyng Aled Griffith yn eilio.

### **7. Cerflun Mr. Maddocks**

Dim byd i'w adrodd.

Marian Roberts  
29.4.21